

# Chwalu Termau Technegol

**1** Eglurwch i'r grŵp eu bod yn mynd i ddarllen cartŵn sy'n cynnwys nifer o bobl sy'n gweithio yn y Swyddfa Dywydd ac archwilio rhai termau allweddol sy'n ymwneud â gyrfaoedd ym meysydd tywydd a hinsawdd. Rhowch y cartŵn 'Arwyr y Tywydd' ar y sgrin neu fwrdd gwyn rhyngweithiol er mwyn darllen a rhannu syniadau fel grŵp cyfan. Efallai y byddwch hefyd am ddosbarthu copïau printiedig i unigolion neu barau. Yn dibynnu ar allu, efallai y byddwch hyd yn oed am ofyn i bobl ifanc ei ddarllen yn uchel, gan neilltuo gwahanol gymeriadau i bob person.

**2** Wrth i'r stori gael ei darllen, gofynnwch i'r bobl ifanc gylchu neu ysgrifennu unrhyw eiriau gwyddonol neu dechnegol maen nhw'n eu clywed. Esboniwch nad ydych chi'n disgwyl iddyn nhw wybod beth mae pob un o'r rhain yn ei olygu. Nesaf, gofynnwch iddyn nhw ddarllen trwyddo eto a rhoi cylch o amgylch unrhyw eiriau eraill nad ydyn nhw'n eu deall. Gallech wneud hyn mewn parau i weld a yw rhai eisoes yn gwybod y termau ac yn gallu helpu eu partner i'w diffinio.

20 munud

Gwaith grŵp

Cartŵn arwyr y tywydd

**3** Pan fydd pawb wedi llunio eu rhestrau, trafodwch nhw fel grŵp. Dechreuwch gyda'r termau technegol. Gellir defnyddio'r eirfa isod i ysgogi trafodaeth a helpu pawb i ddeall y derminoleg anoddach, gan gynnwys enghreifftiau o'u hystyr yng nghyd-destun y stori:

**Prentisiaeth**
Cyfle am waith cyflogedig sy'n eich galluogi i hyfforddi a symud ymlaen tuag at gymhwyster wrth weithio. Dechreuodd Sophie yn ei swydd yn y Swyddfa Dywydd trwy brentisiaeth. Llwyddodd i fynd yn syth i'r swydd ar ôl y coleg, er mwyn ennill arian wrth hyfforddi i fod yn beiriannydd cymwys.

**Pont**
Ffrâm wedi'i gwneud o sgaffaldiau sy'n caniatáu i beirianwyr weithio'n ddiogel ar uchder o fewn radom. Rhaid i Sophie ddringo i fyny i'r bont er mwyn trwsio derbynnydd y radar (cyfeiriwch yn ôl at Daflen Ffeithiau Radar am ragor o wybodaeth am dderbynyddion). Mae'r derbynnydd yn uchel o fewn y radom, felly mae'r bont yno i sicrhau ei bod yn cadw'n ddiogel wrth weithio arni.

**Cod**
Trefniant o reolau neu gyfarwyddiadau sy'n dweud wrth gyfrifiadur am gyflawni gwahanol dasgau. Mae swydd Aaron yn cynnwys edrych ar y cod sy'n rheoli'r radar, ochr yn ochr â'r data y mae'n eu recordio, i weld beth sydd wedi torri. Trwy ddefnyddio gwahanol dechnegau codio, gall ddarganfod beth yn union yw'r broblem.

**Data**
Casgliad o werthoedd sy'n cael eu casglu trwy arsylwi, ac yna gellir eu trosi'n wybodaeth fel testun neu ddelweddau. Mae'r radar yn cofnodi data gwlybaniaeth, ond i fod yn ddefnyddiol, mae angen troi'r data'n wybodaeth am y storm eira sydd ar ddod.

**Storm eira**
Cwymp trwm iawn o eira sy'n cael ei chwythu gan wyntoedd cryfion am gyfnod hir. Gall gynnwys eira, eirlaw, rhew a glaw rhewllyd. Mae Sophie yn ymladd y cloc i drwsio'r radar cyn i'r digwyddiad tywydd eithafol hwn ddod yn rhy agos! Oherwydd y risgiau i ddiogelwch pobl, mae'n bwysig iawn bod y radar yn gallu trosglwyddo data yn ôl i Bencadlys y Swyddfa Dywydd, er mwyn trosglwyddo gwybodaeth i baratoi'r gwasanaethau brys.

**4** I ddod â'r gweithgaredd i ben, gallwch ofyn i bobl ifanc a ydynt yn gwybod am unrhyw eiriau neu swyddi eraill sy'n gysylltiedig â thywydd a hinsawdd. Gallwch chi awgrymu eu bod yn dewis un gair ac yn ymchwilio i'r diffiniad yn eu hamser eu hunain pan fyddant gartrefown time when they're at home.

The Met Office provides free education content to support young people to be prepared for the effects of weather and climate change on them and their communities.
Find out more at **www.metoffice.gov.uk/schools**

© Crown Copyright 2022, Met Office